

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn gampfa Gwynjim
Nos Iau 20 Ebrill 2017 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Rhys Llwyd

Y Cynghorydd Susan Roberts

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Gareth Davies

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Angharad Williams

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Sharon Breward.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn gampfa Gwynjim, yn dilyn derbyn gwahoddiad i ymweld â'r safle. Cafwyd daith o amgylch yr adeilad gan Gwyn Owen, ac adroddiad byr o'r gweithgareddau sy'n cael eu darparu gan Gwynjim.

1. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2017.

2. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Preswlydd 4 Bro Syr Ifor yn gaeth i'r gadair, ac yn gweld dim ond coeden fawr drwy y ffenestr. Y Cyng. Gwen Griffith wedi rhoi cais am docio'r goeden i Gyngor Gwynedd. Adroddwyd bod y goeden nawr wedi ei thorri lawr yn gyfan gwbl.

3.2 Lôn Las Ogwen – y giât ar gychwyn y Lôn Las ger garej Pandy wedi diflannu. Y Clerc i anfon neges at Gyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn.

3.3 Yswiriant y Cyngor-prisiau cymharol heb eu derbyn hyd yn hyn.

Penderfynwyd bydd y Cyngor yn mynd am y pris isaf, am bolisi cyfatebol. Y polisi wedi ei adnewyddu gyda Zurich.

3.4 Mynedfa Tal y Cae, Tregarth – tractor wedi gwneud llanast ar y darn tir.

Cyngor Gwynedd wedi cytuno gwneud gwaith twtio yn ystod eu cylch nesaf.

3.5 Cyffordd Felin Hen – twll mawr yn y ffordd, perygl wrth drïo ei osgoi. Cyngor Gwynedd wedi gwneud y gwaith.

3.6 Cerrig Llwydion – pryderon am goeden sydd yn tyfu rhwng y ffens a'r wal ar ochr y lon yn malurio'r wal ac yn achosi i gerrig ddisgyn i'r lon. Dim ymateb hyd yn hyn.

3.7 Tynal Tywyll, Lôn Las Ogwen – y ffens a'r coed uwchben y dwannel wedi mynd, perygl o ddisgyn. Cyngor Gwynedd am wneud y gwaith ffensio yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac ar ôl i'r stoc symud o'r caeau.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2017'

Cyflwynwyd: E-bost gan Un Llais Cymru ar ran Siarter Coed y Werin-gwahoddiad i fod yn rhan o'r Siarter. Penderfynwyd holi am fwy o wybodaeth a gohebiaeth yn Gymraeg.

Cyflwynwyd: E-bost gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a'r cynllun ad-dalu costau am waith cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yn ystod 2017-18. Penderfynwyd cadarnhau bod y Cyngor yn awyddus i fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu.

Cyflwynwyd: E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – Dyddiadau i'r dyddiadur, cyfarfodydd blynyddol gyda chynghorau tref a chymuned. Lleoliadau i'w cadarnhau. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd- Llythyr gan Gyngor Gwynedd a Cadw Cymru'n Daclus- cyfarfod i drafod y cynnydd/sefyllfa presennol yn ardal peilot Ogwen. Y Cadeirydd a'r Clerc i fynychu.

Cyflwynwyd- ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio-tir yn Parc Bryn Cegin, Llandygai, Bangor-cynllun arfaethedig i godi cyfleuster cynhyrchu caws gyda caffi/ardal ymwelwyr. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn cefnogi'r cais.

5. Gwaith y mis

5.1 Adroddwyd bod y contractwr presennol yn hapus i gario ymlaen gyda'r gwaith cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd bydd y toriadau ym mis Mai a Medi, gyda gwaith twtio fel bod angen.

5.2 Llwybr y Gelli, Bryn Cul- adroddwyd bod y ceffylau yn gwneud llanast yn y cae, yn enwedig pan fo'r tywydd yn wlyb.

5.3 Llwybr beics pentref Llandygai- adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wîb. Perygl o ddamwain gyda cherddwyr ifanc a henoed y pentref. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi am rhyw fath o rwystr, i arafu'r beicwyr.

5.4 Arwydd ar gyfer Llandygai – dal dim golwg o'r arwydd.

5.5 Tynal Tywyll- trafodwyd syniadau ar gyfer agoriad swyddogol i'r dwannel.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth- adroddwyd bod y gwaith draeni bron a gorffen. Yr argyfwng mwyaf sydd gan y pwyllgor i'w dod o hyd i ofalwr/wraig cyn gynted a phosib.

Ysgol Llandygai- adroddwyd syniadau yn cael eu trafod ar gyfer oriau agor yr ysgol, gan bod y sefyllfa parcio yn ddifrifol pan bod amser codi'r plant o'r ysgol.

Neuadd Talgai – adroddwyd bod bore coffi yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Cefnfaes 06.05.17.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mawrth

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Un Llais Cymru	£310.00
Zurich	£453.91
Partneriaeth Ogwen	£3988.16
Cyngor Gwynedd	£1938.93

9. Penderfyniadau Cynllunio

C16/1340/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Codi modurdai i wasanaethu llety
gwyliau

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C16/1339/16/LL

Ysgubor y Gelli, Lon y Wern, Tregarth

Newid defnydd ysgubor yn uned
wyliau

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C16/0319/16/HT

Ochr lon ger mynedfa Ystad
Diwydiannol Coed y Parc, Bethesda

Hysbysiad o flaen llaw o waith
uwchraddio cyfarpar telathrebu
presennol

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C17/0080/16/LL

Zip World, Chwarel y Penrhyn,
Bethesda

Gosod gwaith trin carthion gan
gynnwys arlwysfa i'r Afon Ogwen

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau

C17/0233/16/LL

Tanrith, Ffordd Felin Hen, Tregarth
Codi modurdy cyswllt

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag
amodau.

C17/0238/16/CR

Ysgol Llandygai, Llandygai, Bangor
Cais ol-weithredol i gadw peiriant
awyru ar dô'r ysgol
Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd
yn hyn

10. Ceisiadau Cynllunio

C17/0200/16/LL

6 Pen y Ffriddoedd, Tregarth
Newid defnydd sied gardd domestig i
ddefnydd busnes er mwyn cynhyrchu
diod meddwol o fedd
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C17/0238/16/CR

Ysgol Llandygai, Llandygai, Bangor
Cais ol-weithredol i gadw peiriant
awyru ar do'r ysgol
Penderfyniad: Yn dilyn derbyn mwy
o wybodaeth, angen gwneud cais i
orchuddio'r peiriant awyru sydd
mewn ardal cadwraeth.

C17/0729/16/LL

Valhalla, Mynydd Llandygai
Dymchwel adeilad gardd presennol a
chodi modurdy newydd unllawr
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C17/0344/16/LL

Tir gyferbyn Cwr y Coed, Tregarth
Diwygio amod 1 o ganiatad cynllunio
C15/0087/16/MG
Penderfynwyd: Cefnogi

11. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.